



Fframwaith Cymhwysedd Digidol

Atebion i'ch cwestiynau

Diweddariad – Mehefin 2018

Fframwaith Cymhwysedd Digidol – atebion i'ch cwestiynau

Cynulleidfa

Yr holl weithlu addysg, partneriaid cenedlaethol a'r llywodraeth, gan gynnwys awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol, undebau'r gweithlu, awdurdodau esgobaethol, cyrff llywodraethu ac Estyn.

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon i gyd-fynd â'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol ac i helpu ysgolion yng Nghymru i'w roi ar waith.

Camau i'w cymryd

Dim – er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Is-adran Diwygio'r Cwricwlwm

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

e-bost: CwricwlwmGymru@llyw.cymru



[@LIC_Addysg](https://twitter.com/LIC_Addysg)



[Facebook/AddysgCymru](https://www.facebook.com/AddysgCymru)

Copïau ychwanegol

Gallwch weld y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru yn

llyw.cymru/cwricwlwmigymru

Dogfennau cysylltiedig

Cymwys am oes (2014); *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru* (2015); *Addysgu Athrawon Yfory* (2015); *Cwricwlwm i Gymru – cwricwlwm am oes* (2015); *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, Cynllun gweithredu 2017–21* (2017)

Cynnwys

Pethau allweddol y mae angen i chi eu gwybod	2
Datblygu'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol	5
Rhoi'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol ar waith	8
Cymorth ac adnoddau	10
Asesu a chymwysterau	12
Arolygu	13
Rhagor o wybodaeth	14

Pethau allweddol y mae angen i chi eu gwybod

1. Beth yw ystyr 'cymhwysedd digidol'?

Cymhwysedd digidol yw'r set o sgiliau, gwybodaeth ac agweddau i alluogi defnydd hyderus, creadigol a hollbwysig o dechnolegau a systemau. Mae'n galluogi person i fod yn ddinesydd digidol hyderus, i ryngweithio a chydweithio'n ddigidol, i gynhyrchu gwaith yn ddigidol, ac i fagu hyder mewn perthynas â thrin data a meddwl cyfrifiadurol (datrys problemau).

2. Beth ddylai fy lleoliad/ysgol fod yn ei wneud i roi'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol ar waith?

Mae'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol (y Fframwaith) wedi bod ar gael ers Medi 2016. Erbyn hyn dylai lleoliadau ac ysgolion fod wedi cael amser i'w ystyried a dechrau ei ymgorffori yn eu darpariaeth. Dylai lleoliadau/ysgolion:

- datblygu gweledigaeth glir ar gyfer dysgu digidol
- datblygu polisiau a gweithdrefnau i gefnogi'r gwaith o gyflawni cymhwysedd digidol
- pennu arweinydd sy'n gyfrifol am gymhwysedd digidol
- ymgorffori cymhwysedd digidol yng nghynlluniau gwella ysgolion
- cyflawni ymarfer mapio o gyflawni ym maes cymhwysedd digidol
- cyflawni archwiliadau staff a phennu gofynion dysgu proffesiynol.

Wrth symud ymlaen, bydd angen i chi fireinio'ch darpariaeth. Bydd mwy o wybodaeth ar yr hyn a ddisgwylir yn y cyfnod cyn cyflwyno'r cwricwlwm newydd yn 2022 ar gael ar-lein yn learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/180620-dcf-wallchart-cyen.pdf.

3. A oes syniadau am dasgau dosbarth ar gael?

Oes. Darparwyd syniadau am dasgau dosbarth yn y Fframwaith rhyngweithiol. Yn dilyn cyngor gan ein Hysgolion Arloesi Digidol, mae mwy o syniadau a thasgau wedi'u hychwanegu i'n gwefan Hwb. Gallwch eu haddasu ar gyfer eich dosbarth neu'ch lleoliad chi.

Anogwn bob ysgol i ddefnyddio'r adnoddau ar Hwb a datblygu a rhannu adnoddau gydag ysgolion eraill ledled Cymru. Mae'r adnoddau ar gael yn www.hwb.llyw.cymru.

4. Ydy'r Fframwaith yn cymryd lle technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) neu gyfrifiadureg?

Nac ydy. Mae'r Fframwaith yn drawsbynciol ac mae'n wahanol i'r rhaglen astudio ar gyfer TGCh presennol, fel y nodir yn *Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru, Cyfnodau Allweddol 2–3* (2008). Bydd cymhwysedd digidol, ynghyd â llythrennedd a rhifedd, hefyd yng nghyfrifoldebau trawsgwricwlaidd yn y cwricwlwm newydd. Mae'r cwricwlwm newydd, a fydd ar gael i ysgolion ar gyfer adborth ym mis Ebrill 2019, yn cynnwys Maes Dysgu a Phrofiad Gwyddoniaeth a Thechnoleg, ac o fewn hwnnw bydd gofyniadau penodol o ran cyfrifiadureg.

5. Beth yw dull Estyn ar gyfer y Fframwaith?

Nid yw'r Fframwaith yr un peth â TGCh. Fodd bynnag, lle mae ysgolion wedi ceisio bod yn greadigol a cheisio defnyddio dychymyg wrth symud mentrau ymlaen er budd dysgwyr, gan gynnwys defnyddio'r Fframwaith i ddatblygu eu harfer mewn TGCh, bydd arolygwyr yn ystyried arloesedd a hyblygrwydd mewn ffordd gadarnhaol.

Mae canllawiau ynghylch arolygiadau ym maes TGCh ar gael ar wefan Estyn yn www.estyn.llyw.cymru/dogfen/arweiniad-atodol-arolygu-technoleg-gwybodaeth-chyfathrebu-tgch-mewn-ysgolion.

6. Pa gymorth sydd ar gael i leoliadau/ysgolion fabwysiadau'r Fframwaith?

Erbyn hyn, mae'r Ysgolion Arloesi Digidol yn mynd ati i helpu ysgolion eraill i roi'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol ar waith. Ynghyd â'n consortia rhanbarthol, maent wedi llwyr ymroi i'r dull partneriaeth o helpu ysgolion drwy rannu'u harbenigedd.

Cysylltwch â'r arweinydd digidol yn eich consortia rhanbarthol* a bydd yn darparu cymorth a chynghor i'ch lleoliad/ysgol.

* Mae'n bosibl y bydd cymorth i rai lleoliadau yn cael ei ddarparu gan awdurdodau lleol neu drwy sefydliadau ambarél sy'n gallu rhoi cynghor ar sut i ddatblygu'r ddarpariaeth yn y maes hwn.

7. A fydd cynllun gwaith ar gael i weithredu'r Fframwaith?

Na fydd. Y drydedd thema drawsgwricwlaidd yw'r Fframwaith; felly ni fydd yn cynnwys cyflwyno sgiliau mewn ffordd linellol. Bydd gan eich consortia rhanbarthol ganllawiau am hyn.

Mae adnodd mapio sydd wedi'i ddatblygu gan Ysgolion Arloesi Digidol yn caniatáu i chi groesgyfeirio elfennau o'r Fframwaith gyda'ch dysgu cyfredol, yn ôl pwnc a blwyddyn. Wrth i chi ychwanegu'ch gwybodaeth, bydd yr adnodd yn dangos i ba raddau yr ydych wedi cyflawni'r Fframwaith, gan ganiatáu i chi gynllunio i wneud yr ystod gyflawn o sgiliau o fewn pob elfen dros gyfnod o flwyddyn. Bydd hefyd yn help i chi sicrhau y lledaenir hyn ar draws yr ysgol.

8. Pryd fydd yr adnodd anghenion dysgu proffesiynol ar gael?

Mae'r adnodd anghenion dysgu proffesiynol ar gael ar Hwb yn www.hwb.llyw.cymru. Mae'r adnodd ar-lein hwn ar gyfer unigolion a lleoliadau/ysgolion yn helpu ymarferwyr i asesu eu hyder eu hunain a phennu'r meysydd y mae angen iddynt wella ymhellach.

9. A fydd angen i leoliadau/ysgolion brynu offer newydd i gyflwyno'r Fframwaith?

Ni fydd angen i leoliadau/ysgolion wneud hynny o reidrwydd. Dylent weithio gyda'u hawdurdodau lleol i sicrhau bod rhaglen amnewid TGCh addas a chynaliadwy mewn lle.

Dylai lleoliadau/ysgolion sicrhau bob amser bod cynllunio ar gyfer dysgu digidol yn cyd-fynd â'u gweledigaeth a'u gwerthoedd, a bod unrhyw buddsoddi a wneir hefyd yn cyd-fynd â hynny.

Datblygu'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol

10. Beth yw cymhwysedd digidol?

Mae cymhwysedd digidol yn set o sgiliau, gwybodaeth ac agweddau penodol sy'n caniatáu i rywun ddefnyddio technolegau a systemau yn hyderus, yn greadigol ac yn feirniadol mewn byd cynyddol ddigidol. Mae'n thema drawsgwricwlaidd a chyfrifoldeb yr ymarferwyr a'r athrawon fydd ei gynnwys yn eu gwersi.

Mae cymhwysedd digidol yn wahanol i TGCh ond mae yna gysylltiad agos rhyngddynt (yn enwedig mewn addysg gynradd). Mae'n debygol y bydd rhywfaint o orgyffwrdd rhwng y Fframwaith a chyfrifiadureg. Fodd bynnag, mae'r Arloeswyr Digidol wedi datblygu'r Fframwaith ar y sail y bydd codio yn dod o dan cyfrifiadureg yn bennaf.

11. Pam fod angen y Fframwaith?

Mae darparu sgiliau digidol lefel uchel i ddysgwyr yn rhan o genhadaeth ein cenedl ar gyfer addysg i sicrhau bod ein plant a'n pobl ifanc yn gymwys yn ddigidol ac yn datblygu'n feddylwyr mentrus, creadigol a beirniadol.

Roedd yr angen am y Fframwaith cynhwysfawr yn un o brif argymhellion adroddiad yr Athro Graham Donaldson, *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru* (2015), a oedd yn adlewyrchu cynnig gan Banel Adolygu TGCh annibynnol yn 2013. Nodwyd yn adroddiad y panel i Lywodraeth Cymru bod cymhwysedd digidol yr un mor bwysig â llythrennedd a rhifedd yn yr unfed ganrif ar hugain.

12. Sut mae'r Fframwaith wedi'i ddatblygu?

Ym Mehefin 2015, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd y byddai'r gwaith o ddatblygu'r Fframwaith yn cael ei flaenoriaethu, er mwyn ei gael yn barod erbyn Medi 2016. Ym mis Gorffennaf 2015, cyhoeddwyd Ysgolion Arloesi Digidol ledled Cymru, ac mae'r Fframwaith wedi'i ddatblygu gan ymarferwyr/athrawon o'r ysgolion hynny, gyda chymorth arbenigwyr allanol a chymorth ymarferol swyddogion Llywodraeth Cymru.

Defnyddiwyd dulliau trwyadl, annibynnol o sicrhau ansawdd a gwaith ymchwil rhyngwladol i greu'r Fframwaith a'i ddatblygu ar sail arferion gorau ac ymchwil addysgol.

I gwblhau'r Fframwaith sydd bellach wedi'i chyhoeddi, gwnaeth ymarferwyr o'r Ysgolion Arloesi Digidol ystyried sylwadau rhanddeiliaid, gan gynnwys ysgolion o fewn y clwstwr ac ystod o randdeiliaid a ymatebodd i ddau holiadur fel rhan brosesau ymgynghori ehangach ar fersiynau blaenorol o'r Fframwaith. Yn ogystal, cafwyd adborth gan y Grŵp Sicrhau Ansawdd a gadeiriwyd gan yr Athro Tom Crick a hefyd grwpiau fel y Cyngor Dysgu Digidol Cenedlaethol.

13. Beth yw strwythur y Fframwaith?

Defnyddiwyd datganiadau cynnydd blynyddol fel strwythur i'r Fframwaith. Mae hyn yn debyg i strwythur y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLIRh).

Yn yr un modd â'r FfLIRh, mae'r Fframwaith hwn yn cydnabod nad yw pob plentyn yn datblygu yn yr un ffordd. Mae'r datganiadau yn cynnig eglurder am gynnydd dysgwyr at ddibenion cynllunio, ond dylid cofio y bydd dysgwyr yn datblygu ymhellach neu'n gyflymach mewn rhai agweddau nag mewn agweddau eraill, ac y bydd y broses ddysgu yn digwydd dros sawl blwyddyn yn aml.

Wrth i'r cwricwlwm newydd gael ei ddatblygu a'r cysyniad o bwyntiau cyfeirio cynnydd ddod yn gliriach, caiff y fformat hwn ei adolygu.

14. Sut mae'r Fframwaith yn cyd-fynd â'r Cyfnod Sylfaen?

Mae'r Fframwaith yn tynnu ynghyd y sgiliau a fydd yn helpu plant i ffynnu mewn byd gynyddol ddigidol, er enghraifft sut i fod yn ddiogel ar-lein a hefyd eu bod yn deall pwysigrwydd cadw cydbwysedd rhwng yr amser sy'n cael ei dreulio'n edrych ar y sgrin neu'n chwarae gemau â gweddill eu bywydau.*

Mae'r Fframwaith fel y mae ar hyn o bryd wedi'i ddatblygu i ategu'r cwricwlwm presennol, gan gynnwys y Cyfnod Sylfaen, er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn datblygu'r sgiliau sylfaenol y byddant yn adeiladu arnynt wrth iddynt symud ymlaen drwy eu haddysg.

* Mae sgiliau yn y Fframwaith y gellir eu cyflwyno heb dechnoleg a chysyniadau y gellir eu trafod heb galedwedd.

15. Rhyddhawyd y Fframwaith Medi 2016 – ai hon fydd y fersiwn derfynol?

Pan ryddhawyd y Fframwaith ym Medi 2016, dywedom y byddai'n cael ei ddiwygio ar sail adborth gan leoliadau, ysgolion, ymarferwyr/athrawon a rhanddeiliaid ehangach. Ym Medi 2017, gan weithio gyda'r Arloeswyr Digidol, gwnaed mân ddiwygiadau yn unol â'r adborth. Bydd y Fframwaith yn parhau i esblygu, wrth gwrs, yn arbennig i adlewyrchu newidiadau i dechnolegau.

16. Mae rhai llinynnau o'r Fframwaith yn ymddangos yn dechnegol; sut caiff ei gyflawni ar draws y cwricwlwm?

Mae'r Fframwaith wedi'i gynllunio'n unol ag egwyddorion *Dyfodol Llwyddiannus*, sy'n nodi y dylai cymhwysedd digidol fod yn gyfrifoldeb trawsgwricwlaidd ynghyd â llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm newydd.

Mae'n cynnwys enghreifftiau o syniadau am dasgau dosbarth o ran sut i ddatblygu sgiliau drwy gyfleoedd naturiol yn y cwricwlwm presennol. Mae rhagor o adnoddau ar gael ar Hwb yn www.hwb.llyw.cymru.

Bydd angen i'r syniadau am dasgau dosbarth esblygu i adlewyrchu technolegau newydd ac arbenigeddau a phrofiadau newydd yn y maes dysgu digidol.

Nid gosod sgiliau'n artiffisial ar ben meysydd y cwricwlwm yw'r nod, ond eu cynnwys yn wirioneddol.

17. A yw'r Fframwaith yn addas i ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)?

Mae'r Fframwaith ar gyfer pob plentyn yng Nghymru. Yn achos dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), bydd yn cynnwys sgiliau Ar Drywydd Dysgu, sef y sgiliau cynharaf sy'n sail i ddatblygu sgiliau eraill uwch.

Mae Ar Drywydd Dysgu yn ceisio datblygu dysgwyr mewn ffordd gyfannol a chynnig sawl llwybr datblygu posibl sydd wedi'u torri lawr yn gamau bach iawn (hynny yw Camau A/B/C) ac wedi'u teilwra i bob dysgwr.

Mae rhai o'r camau cyntaf ar gyfer datblygu cymhwysedd digidol yn cynnwys datblygu sgiliau mwy cyffredinol sy'n gamau datblygiadol angenrheidiol ar gyfer defnyddio technoleg yn briodol.

Rhoi'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol ar waith

18. Fel ymarferydd/athro, beth mae disgwyl i mi ei wneud â'r Fframwaith tan i'r cwricwlwm newydd gael ei gyflwyno yn 2022?

I gynnwys y Fframwaith yn eich darpariaeth, dylech ystyried:

- datblygu gweledigaeth glir ar gyfer dysgu digidol
- datblygu polisïau a gweithdrefnau i gefnogi'r gwaith o gyflawni cymhwysedd digidol
- pennu arweinydd sy'n gyfrifol am gymhwysedd digidol
- ymgorffori cymhwysedd digidol yng nghynlluniau gwella ysgolion
- cyflawni ymarfer mapio o gyflawni ym maes cymhwysedd digidol
- cyflawni archwiliadau staff a phennu gofynion dysgu proffesiynol.

Bydd ymarferwyr unigol mewn lleoliadau/ysgolion yn gyfrifol am ymgyfarwyddo â'r Fframwaith, gan gytuno gyda chydweithwyr ar weledigaeth strategol ar gyfer cymhwysedd digidol trawsgwricwlaidd a throi hyn yn arferion.

Bydd ychwanegu at y syniadau am y tasgau dosbarth sy'n cysylltu â'r sgiliau yn y Fframwaith, a'u hadnewyddu, yn elfen bwysig o ddatblygiad parhaus y Fframwaith. Gallwch rannu syniadau/deunyddiau tasgau dosbarth drwy ardaloedd cymunedol Hwb.

O Fedi 2017, wrth i ymarferwyr unigol a lleoliadau/ysgolion ymgyfarwyddo â'r Fframwaith a'u defnyddio'n fwy, dylent barhau i ddarparu adborth a syniadau am dasgau dosbarth.

19. Rwyf am ymgorffori'r Fframwaith i bopeth rwy'n ei wneud ar unwaith. Alla i wneud hynny?

Os yw ymarferwyr/athrawon yn teimlo eu bod yn gallu darparu rhannau o'r Fframwaith neu'r Fframwaith cyfan, rydym yn eu hannog i wneud hynny.

20. Sut bydd y Fframwaith yn cyd-fynd â'r cwricwlwm newydd?

Mae'r penderfyniad i flaenoriaethu'r gwaith o ddatblygu'r Fframwaith yn golygu y bydd modd ei ymgorffori'n llawn ar draws y cwricwlwm newydd wrth iddo gael ei gynllunio a'i ddatblygu.

21. Sut bydd y Fframwaith yn cyd-fynd â'r fframweithiau TGCh sydd gan gonsortia rhanbarthol?

Mae'r fframweithiau TGCh rhanbarthol yn helpu i weithredu a chyflenwi TGCh fel pwnc (sy'n statudol hyd at 14 oed) i sicrhau bod sgiliau dysgwyr yn datblygu'n briodol.

I ddechrau, efallai y bydd yna orgyffwrdd rhwng y fframweithiau TGCh rhanbarthol a'r Fframwaith. Efallai y bydd y consortia rhanbarthol yn dymuno diwygio/adolygu eu fframweithiau presennol yn sgil y Fframwaith dros amser.

Cymorth ac adnoddau

22. Pa gymorth gaiff ei roi i leoliadau/ysgolion ac ymarferwyr/athrawon i ddefnyddio'r Fframwaith?

Ar hyn o bryd mae'r Rhwydwaith Arloesi yn gweithio i nodi'r deunyddiau a fydd o gymorth i leoliadau/ysgolion ac ymarferwyr/athrawon wrth ddefnyddio'r Fframwaith. Bydd hyn yn cynnwys deunydd hen a newydd. Bydd angen teilwra/gwahaniaethu'r cymorth yn dibynnu ar le'n union y mae pob lleoliad/ysgol ar eu taith ddigidol.

Bydd gan bob ysgol a gynhelir yng Nghymru fynediad i Hwb sy'n darparu ystod eang o offer, dulliau ac adnoddau digidol a ariennir yn ganolog i'w helpu i weithredu'r Fframwaith yn llawn.

Mae'r Rhwydwaith Arloesi, gyda chymorth y consortia rhanbarthol, yn arwain ar ddarparu hyfforddiant a chymorth ar weithredu'r cwricwlwm newydd. Cysylltwch â'ch arweinydd digidol lleol am fanylion.

Mae'n bosibl y bydd cymorth i rai lleoliadau yn cael ei ddarparu gan awdurdodau leol neu drwy sefydliadau ambarél sy'n gallu rhoi cyngor ar sut i ddatblygu'r ddarpariaeth yn y maes hwn.

23. A fydd disgwyl i leoliadau/ysgolion fuddsoddi mewn adnoddau ffisegol ychwanegol?

Wrth gynllunio'r Fframwaith, gwnaed penderfyniad bwriadol i beidio â chyfeirio at dechnoleg benodol yn y manylebau sgiliau, er mwyn i leoliadau/ysgolion allu ei gyflwyno i raddau helaeth o fewn yr adnoddau sydd ganddynt eisoes neu'r hyn sydd eisoes wedi'i gynllunio ganddynt.

I baratoi ar gyfer defnyddio'r Fframwaith, canolbwyntir yn bennaf ar ddatblygu hyder a gallu digidol ymarferwyr/athrawon, ac ar syniadau i ymgorffori'r Fframwaith yn eu haddysgu, yn hytrach nag ar galedwedd neu feddalwedd.

Gan gydweithio â'u hawdurdod lleol/consortia rhanbarthol, dylai lleoliadau/ysgolion asesu'n ofalus a fyddai adnoddau yn ychwanegu gwerth sylweddol at weithredu'r Fframwaith, gan ystyried hefyd gwasanaethau presennol a ariennir yn ganolog megis Hwb, cyn buddsoddi mewn adnoddau o'r fath.

24. Sut bydd fy nghonsortium rhanbarthol a/neu fy nghynghorydd herio yn fy helpu i ddeall gofynion y Fframwaith?

Mae'r ddogfen hon yn rhan o ganllawiau cychwynnol a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth â'r Arloeswyr Digidol ac ag arweinwyr consortia rhanbarthol.

Bydd y consortia rhanbarthol yn cynnal digwyddiadau i godi ymwybyddiaeth a meithrin dealltwriaeth o'r Fframwaith. Bydd cynghorwyr herio ac arweinwyr digidol yn rhoi neges gyson i leoliadau/ysgolion ac ymarferwyr/athrawon am y Fframwaith.

25. A fydd arweinydd digidol yn fy lleoliad/ysgol? Beth fydd ei rôl?

Mae rôl arweinydd digidol o fewn lleoliad/ysgol yn allweddol i ddatblygu gweledigaeth glir ar gyfer dysgu digidol ac i gydlynu sut caiff y Fframwaith ei ddefnyddio i ddatblygu mwy o ddealltwriaeth a hyder. Mae datblygu ymagwedd ysgol gyfan ar gyfer dysgu sgiliau digidol ar draws y cwricwlwm yn hanfodol. Nid yr arweinydd digidol yn unig sy'n gyfrifol am weithredu'r Fframwaith. Mae gan bob ymarferydd/athro rôl bwysig o ran datblygu cymhwysedd digidol eu dysgwyr.

Bydd ymarferydd arweiniol yn cydlynu'r gwaith o bennu a diwallu anghenion datblygu staff a pharatoi cynllun ar gyfer gweithredu'r Fframwaith er mwyn datblygu diwylliant digidol cadarnhaol mewn lleoliadau/ysgolion.

Bydd cynnal archwiliad o seilwaith ysgolion (cyflymder rhyngrwyd a gwasanaeth diwifr) ac o'r caledwedd sydd ar gael, mewn partneriaeth â chonsortia rhanbarthol, hefyd yn arfer da, er mwyn sicrhau bod yr hyn sydd ei angen i ddarparu'r Fframwaith i ddysgwyr ar gael.

26. Rwy'n ystyried cynnal archwiliad o sgiliau fy staff er mwyn nodi'r cymorth y gallai fod ei angen arnynt. Oes yna un ar gael eisoes y gallaf ei ddefnyddio?

Mae adnodd anghenion dysgu proffesiynol ar gael ar Hwb yn www.hwb.llyw.cymru. Mae'r adnodd ar-lein hwn ar gael i unigolion a lleoliadau/ysgolion asesu eu hyder eu hunain a phennu'r meysydd y mae angen iddynt wella ymhellach.

Asesu a chymwysterau

27. Sut bydd y Fframwaith yn cael ei asesu?

Mae *Dyfodol Llwyddiannus* yn argymhell y dylai llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fod yn gyfrifoldeb trawsgwricwlaidd i bob ymarferydd/athro ac i bobl sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Bydd y cyfrifoldeb trawsgwricwlaidd hwn yn cael ei integreiddio ym Meysydd Dysgu a Phrofiad y cwricwlwm newydd.

Yn yr un modd â'r FfLIRh, gellir defnyddio'r Fframwaith fel adnodd asesu ffurfiannol i helpu athrawon i ddeall cynnydd dysgwr, ei gryfderau a'r camau nesaf yn ei ddatblygiad. Nid yw'n ofynnol i leoliadau/ysgolion ac athrawon unigol ddefnyddio'r Fframwaith i wneud penderfyniadau cyfunol ynghylch cynnydd dysgwr.

28. Sut mae'r Fframwaith yn cyd-fynd â Bagloriaeth Cymru?

Mae yna gysylltiadau clir rhwng cymhwysedd digidol a'r llythrennedd digidol a restrir fel un o'r 'Sgiliau Hanfodol a Chyflogadwyedd' ym Magloriaeth Cymru.

Mae'r sgiliau a ddatblygir o fewn y Fframwaith yn ategu'r rheini sy'n ofynnol ym Magloriaeth Cymru.

Caiff sgiliau digidol eu hasesu ym 'Mhrosiect Unigol' a 'Her Menter a Chyflogadwyedd' Bagloriaeth Cymru.

29. A fydd arholiadau TGAU TGCh a Chyfrifiadureg yn newid yn sgil y Fframwaith?

Fel rheoleiddiwr annibynnol cymwysterau yng Nghymru, mater i Gymwysterau Cymru fydd penderfynu a ddylid diwygio cymwysterau.

Mae Cymwysterau Cymru yn mynd ati'n strategol, fesul sector, i adolygu cymwysterau Cymru. Un o'i brif amcanion yw sicrhau bod yna gymwysterau yn sectorau allweddol economi Cymru sy'n bodloni anghenion dysgwyr ac yn cynnig llwybrau clir ac effeithiol i astudio pellach a chyflogaeth.

Fel rhan o'r gwaith, mae Cymwysterau Cymru wedi cynnal adolygiad o gymwysterau'r sector TG, a bydd yn cyhoeddi eu hadroddiad ynghylch yr adolygiad yn yr hydref 2018 yn ogystal â chynigion ar gyfer dyfodol cymwysterau TGCh/technolegau digidol ar gyfer dysgwyr 14 i 19 oed.

Yn y cyfamser, mae'r trefniadau presennol ar gyfer cymwysterau TGAU a Safon Uwch TGCh – yn ogystal â Chyfrifiadureg – yn aros fel y maent am y tro.

Arolygu

30. A fydd Estyn yn arolygu mewn perthynas â'r Fframwaith, ac os felly sut bydd hyn yn cael ei gofnodi?

Mae'n bwysig pwysleisio bod cymhwysedd digidol yn gyfrifoldeb trawsgwricwlaidd ac y dylai pob ymarferydd/athro ystyried sut y gallai elfennau o'r Fframwaith gefnogi'r broses ddysgu ac addysgu o fewn eu pynciau yn y dyfodol.

Mae'r Fframwaith yn wahanol i'r rhaglen astudio ar gyfer TGCh, fel y nodir yn *Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru, Cyfnodau Allweddol 2–3* (2008).

Bydd Estyn yn parhau i arolygu TGCh ar draws y cwricwlwm presennol hyd nes y cyflwynir y cwricwlwm newydd. Bydd Estyn yn adrodd ar safonau dysgwyr o ran defnyddio TGCh ar draws y cwricwlwm presennol ar bob arolygiad a bydd pob adroddiad arolygu yn cynnwys paragraff ar safonau dysgwyr mewn cymhwyso TGCh ar draws y cwricwlwm presennol ym Maes Arolygu 1, Safonau.

Gellir gweld canllawiau Estyn ar arolygu TGCh yn www.estyn.llyw.cymru/dogfen/arweiniad-atodol-arolygu-technoleg-gwybodaeth-chyfathrebu-tgch-mewn-ysgolion.

Lle bydd lleoliadau/ysgolion yn greadigol ac yn llawn dychymyg o ran datblygu mentrau er budd y dysgwyr, gan gynnwys defnyddio'r Fframwaith i ddatblygu eu harferion, bydd arolygwyr Estyn yn ymateb yn gadarnhaol i hynny.

Rhagor o wybodaeth

Anfonwch e-bost at cwricwlwmigymru@llyw.cymru os oes gennych unrhyw gwestiwn.

Byddwn yn rhoi gwybod i chi am unrhyw wybodaeth newydd drwy amrywiaeth o sianeli gan gynnwys Dysg, Dysgu Cymru, Hwb a rhwydweithiau consortia rhanbarthol.